# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Llys y Tywysog**

**Llys-y-tywysog**
**Clos Pengelli, Pengelli**
**Abertawe**
**SA4 4JW**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

Date_Last_Inspection_Completed 22.09.2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:*
*psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Gofal Llys y Tywysog

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Barchester Healthcare Homes Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 54 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 17.07.2019 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Ydy |

## Crynodeb

Dywedodd y bobl sy'n byw yn y cartref a'u perthnasau eu bod yn fodlon iawn ar y gofal a'r cymorth a ddarperir. Dywedodd gweithiwr proffesiynol a oedd yn ymweld â'r cartref fod safon y gofal a ddarperir yn y cartref yn uchel, a bod y staff yn rhoi gwybod am unrhyw bryderon ynghylch iechyd yn brydlon. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym fod y tîm rheoli yn eu cefnogi'n dda. Mae'r prosesau cynllunio gofal yn gadarn ac yn drylwyr. Ceir lefelau staffio priodol sy'n unol â'r datganiad o ddiben ac sy'n cael eu hadolygu'n barhaus. Mae tîm o weithwyr gofal medrus sydd wedi'u hyfforddi'n dda yn gweithio yn y cartref. Mae prosesau sicrhau ansawdd cadarn ar gyfer goruchwylio'r gwasanaeth a ddarperir a thîm rheoli ymroddedig.

Caiff y llety ei gynnal a'i gadw'n dda ac mae'r addurn o safon uchel. Bwriedir gwneud rhagor o waith adnewyddu. Mae tir y cartref yn cael ei gadw'n daclus ac mae modd i'r bobl ei ddefnyddio'n ddiogel. Mae'r ystafelloedd gwely wedi'u personoli yn unol â chwaeth yr unigolyn. Mae amrywiaeth eang o weithgareddau buddiol a gwerthfawr wedi'u trefnu i'r bobl gymryd rhan ynddynt. Dywedodd y bobl wrthym fod digon o amrywiaeth a dewis o ran y bwyd.

Mae'r bobl yn ddiogel ac mae'r staff yn deall pwysigrwydd diogelu a rhoi gwybod am unrhyw bryderon. Mae'r adeilad yn ddiogel a chaiff pob mynedfa ac allanfa eu cadw ar glo, ac mae larwm wedi'i osod ar yr adeilad. Roedd gweithdrefnau rheoli heintiau da ar waith ac mae pob rhan o'r cartref yn lân ac yn drefnus. Mae'r gwasanaeth yn gyson â'r 'Cynnig Rhagweithiol' a'r iaith Gymraeg.

## Llesiant

Mae'r arferion a'r prosesau yn y gwasanaeth yn helpu i sicrhau llesiant corfforol ac emosiynol gorau posibl y bobl. Mae'r staff yn ymroddedig ac yn ymrwymedig i'r gwaith y maent yn ei wneud. Dywedodd y bobl a'u perthnasau wrthym eu bod yn fodlon iawn ar y cymorth a ddarperir a dull gofalgar y staff. Dywedodd y perthnasau wrthym fod y trefniadau cyfathrebu yn y gwasanaeth yn dda. Gwelsom ryngweithio cadarnhaol iawn rhwng y staff a'r bobl drwy gydol yr arolygiad. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau yn rhoi arweiniad clir i'r staff er mwyn iddynt ddeall eu rôl a sut y dylent ddarparu gofal a chymorth. Mae'r datganiad o ddiben presennol yn gyson â'r gwasanaeth a ddarperir. Dywedodd gweithiwr proffesiynol a oedd yn ymweld â'r cartref wrthym fod safon ac ansawdd y gofal a ddarperir yn dda iawn a bod y staff yn rhoi gwybod am unrhyw bryderon ynghylch iechyd yn gyflym. Mae prosesau da ar waith ar gyfer asesu, monitro ac adolygu anghenion gofal a chymorth y bobl. Caiff y gweithwyr gofal hyfforddiant craidd a hyfforddiant arbenigol. Caiff y gweithwyr gofal sesiynau goruchwylio wedi'u cynllunio yn rheolaidd ac mae modd iddynt fanteisio ar gymorth a chyngor pan fydd eu hangen arnynt. Mae amrywiaeth eang o weithgareddau strwythuredig a gweithgareddau wedi'u cynllunio ar gael i'r bobl yn y cartref. Mae'r staff yn ymgynghori â'r bobl ynghylch yr hyn sy'n well ganddynt, eu dewisiadau a'u hanghenion cymorth.

Mae trefniadau goruchwylio a llywodraethu da ar waith yn y gwasanaeth. Mae'n hawdd i'r staff fynd at y tîm rheoli a'r unigolyn cyfrifol, ac maent yn gefnogol. Mae prosesau sicrhau ansawdd cadarn iawn ar waith gan gynnwys gwaith craffu allanol rheolaidd a wneir gan yr unigolyn cyfrifol a'r rheolwr rhanbarthol. Cynhelir cyfarfodydd staff a phreswylwyr wedi'u cynllunio a chaiff camau gweithredu eu dogfennu'n glir fel sy'n briodol. Mae safon y llety'n dda iawn; mae'n gyfforddus ac yn lân, ac mae'r ystafelloedd gwely wedi'u personoli.  Mae cynlluniau ar waith i adnewyddu rhai o'r ystafelloedd ymolchi en-suite a'r gegin, yn ogystal â chael rhywfaint o ddodrefn newydd dan do ac yn yr awyr agored. Caiff y bobl gyfleoedd i ddefnyddio tir y cartref, sy'n braf ac sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Mae pob un o fynedfeydd ac allanfeydd y gwasanaeth yn ddiogel. Gwnaeth y bobl ganmol safon a dewis y bwyd a ddarperir, a chaiff anghenion deietegol gwahanol y preswylwyr eu diwallu. Mae'r gwasanaeth yn gyson â'r ‘Cynnig Rhagweithiol’ ar gyfer y Gymraeg.

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso am fod y gweithwyr gofal yn deall eu cyfrifoldebau o ran diogelu ac yn gwybod sut i godi pryderon pe bai angen iddynt wneud hynny. Roedd pob gweithiwr gofal y gwnaethom siarad ag ef yn dangos gwybodaeth dda am weithdrefnau diogelu ac ymwybyddiaeth dda ohonynt. Mae'r staff yn dilyn canllawiau cyfredol Iechyd Cyhoeddus Cymru ac yn defnyddio'r cyfarpar diogelu personol (PPE) cywir. Mae gweithdrefnau rheoli heintiau da ar waith i sicrhau bod y bobl mor ddiogel â phosibl.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn hapus a chaiff eu hurddas a'u hannibyniaeth eu parchu a'u hybu yn Llys y

Tywysog. Cawsom sgwrs â thri unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth a chawsom adborth gan bedwar o'r perthnasau. Dywedodd un o'r bobl wrthym, *"love it here…care staff are very kind and lovely"* (rwyf wrth fy modd yma...mae'r staff gofal yn garedig iawn ac yn hyfryd). Dywedodd un o'r perthnasau wrthym, *"care has consistently been proactive, personal and loving"* (mae'r gofal wedi bod yn rhagweithiol, yn bersonol ac yn dyner yn gyson). Gwelwyd rhyngweithio cadarnhaol a pharchus rhwng y staff gofal a'r bobl drwy gydol yr arolygiad. Cawsom sgwrs â dau weithiwr proffesiynol, a dywedodd un ohonynt wrthym, *"no concerns regarding the care provided at the home…all issues are reported promptly"* (nid oes gennyf unrhyw bryderon ynghylch y gofal a ddarperir yn y cartref...rhoddir gwybod am unrhyw faterion yn brydlon). Mae tîm o staff gwybodus ac ymroddedig yn diwallu anghenion gofal a chymorth y bobl yn dda. Mae'r lefelau staffio'n gyson â'r datganiad o ddiben, gan gynnwys rheolwr sydd wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru a dirprwy reolwr penodedig. Roedd y gweithwyr gofal y gwnaethom siarad â nhw yn dangos gwybodaeth dda am eu rolau, ac roedd nifer ohonynt wedi bod yn gweithio yn y gwasanaeth ers nifer o flynyddoedd. Dywedodd un o'r gweithwyr gofal wrthym, *"good support from manager and deputy…I get regular supervision, open door policy and a good induction"* (rwy'n cael fy nghefnogi'n dda gan y rheolwr a'r dirprwy... Rwy'n cael sesiynau goruchwylio rheolaidd, mae polisi drws agored ar waith a chefais sesiynau sefydlu da). Dywedodd un arall, *"I love it! Good culture here. Nice atmosphere working here"* (Rwyf wrth fy modd yma! Mae'r diwylliant yma'n dda ac mae'r amgylchedd yn braf). Cadarnhaodd y gweithwyr gofal eu bod yn cael hyfforddiant priodol, ar-lein yn bennaf ar hyn o bryd o ganlyniad i'r pandemig. Mae bron pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant arbenigol ar ddementia. Mae amrywiaeth dda o weithgareddau ar gael i'r bobl sy'n ddiddorol ac yn hwyl. Mae dau gydlynydd gweithgareddau penodedig yn gweithio yn y cartref.

Caiff anghenion gofal a chymorth y bobl eu dogfennu'n glir mewn cynllun gofal manwl sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd. Mae gan y rheolwyr a'r staff gofal wybodaeth dda am anghenion gofal parhaus y bobl. Roedd y cynlluniau personol a welwyd yn cynnwys gwybodaeth bersonol o ran hoff bethau a chas bethau'r bobl, ac yn hybu annibyniaeth wrth gael gofal personol. Mae gwybodaeth gynhwysfawr ar gael am anghenion gofal iechyd megis diabetes a gofal am fannau pwyso corfforol, yn ogystal ag asesiadau risg penodol. Mae gweithdrefnau cyn derbyn trylwyr a chadarn ar waith gan gynnwys gweithdrefnau ar gyfer asesu a throsglwyddo unigolion a rhestrau gwirio ar gyfer pobl newydd.

Mae systemau cadarn ar waith i reoli meddyginiaeth yn ddiogel, yn ogystal â threfniadau diogel ar gyfer storio cypyrddau meddyginiaeth dan glo mewn ardal ddiogel, sydd ond ar gael i staff awdurdodedig. Caiff tymheredd yr ystafell feddyginiaeth a'r oergell eu dogfennu bob dydd. Mae systemau clir ar waith i reoli meddyginiaethau gan gynnwys polisi meddyginiaeth ac archwiliadau rheolaidd. Mae pob aelod o'r staff sy'n rhoi meddyginiaeth wedi cael hyfforddiant ac mae'r rheolwyr yn goruchwylio'r gwaith hwn yn dda. Caiff Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth (MAR) eu cwblhau fel sy'n briodol.

## Yr Amgylchedd

Caiff y bobl ofal mewn amgylchedd glân, cartrefol a diogel.  Mae ystafelloedd gwely'r bobl wedi'u haddurno'n dda, maent yn lân ac wedi'u personoli yn unol â chwaeth yr unigolyn. Mae'r bobl yn hoffi byw yn y cartref, ac roeddent yn sôn am eu hystafelloedd gwely mewn modd cadarnhaol. Gwelsom fod y drysau allanol i mewn ac allan o'r cartref yn ddiogel. Caiff y cartref ei gynnal a'i gadw'n dda, ac mae wedi'i addurno'n dda. Cawsom wybod bod rhaglen o waith adnewyddu wedi'i chynllunio ar gyfer rhai o'r ystafelloedd ymolchi en-suite a'r gegin. Mae hefyd gynlluniau i gael rhywfaint o ddodrefn newydd a newid un o'r lolfeydd yn ystafell sinema, yn dilyn adborth a gafwyd gan y bobl. Gwelsom y bobl yn mwynhau lolfa gymunedol gyda drws allan i'r ardd allanol.

Mae mesurau rheoli heintiau da ar waith, a gofynnwyd i ni roi tystiolaeth o ganlyniad negatif i brawf COVID-19 wrth gyrraedd. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym fod cyflenwad da o PPE ar gael a'u bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf a hyfforddiant ar COVID-19 a rheoli heintiau yn rheolaidd. Mae gan y gwasanaeth system ar waith ar gyfer rheoli ac asesu risgiau o ran ymweliadau mewnol ac allanol. Gwnaethom edrych ar y gegin a'r ardaloedd paratoi bwyd a chawsom wybod bod y cartref wedi cael sgôr hylendid bwyd o bump. Mae hyn yn golygu bod safonau uchel ar waith ar gyfer storio bwyd, trin bwyd a glendid. Mae gan staff y gegin wybodaeth dda am anghenion deietegol y bobl gan gynnwys anghenion arbenigol megis preswylwyr â diabetes neu anawsterau llyncu bwyd. Dywedodd pob un o'r bobl y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn mwynhau'r amrywiaeth o brydau bwyd a'r dewis a gynigir. Gwnaethom edrych o amgylch tir y cartref, sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Cawsom wybod bod y bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau yn yr awyr agored megis garddio a thyfu llysiau. Mae cynlluniau ar waith i osod cysgodfa allanol newydd a dodrefn gardd.

Mae'r amgylchedd yn ddiogel, ac mae prosesau cadarn ar waith i sicrhau bod gwiriadau yn cael eu cwblhau a'u dogfennu. Mae tystysgrifau diogelwch ar gyfer gosodiadau nwy, gweithredu'r lifft, larymau tân, teclynnau codi a slingiau, a phrofi dyfeisiau cludadwy (PAT) ar waith. Gwelsom ffeil gynhwysfawr, fanwl yn cynnwys trosolwg o'r holl waith cynnal a chadw, damweiniau, prosesau rheoli heintiau a materion iechyd a diogelwch yn y cartref. Gwelsom fod y cynhyrchion glanhau yn cael eu storio'n ddiogel, yn briodol ac yn unol â rheoliadau rheoli sylweddau peryglus i iechyd (2002). Mae ystafell golchi dillad benodedig, a chedwir eitemau brwnt ar wahân i eitemau glân yn unol â mesurau rheoli heintiau da. Caiff y larymau tân eu gwirio'n rheolaidd a chofnodir y gwiriadau hyn yn briodol.

## Arwain a Rheoli

Mae'r tîm rheoli yn goruchwylio ac yn llywodraethu'r gwasanaeth yn dda. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau yn fanwl ac yn gadarn, gan drafod meysydd megis diogelu, cwynion a rheoli heintiau. Mae'r holl bolisïau a welwyd yn drylwyr ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae darparwr y gwasanaeth yn cwblhau gwiriadau rheolaidd er mwyn sicrhau bod y bobl yn fodlon ar ansawdd y gofal a'r cymorth. Mae gan y gwasanaeth weithdrefnau a phrosesau mewnol ac allanol cadarn iawn ar gyfer sicrhau ansawdd i wneud yn siŵr bod y gwasanaeth a ddarperir o ansawdd uchel ac yn ddiogel. Mae'r datganiad o ddiben presennol yn disgrifio'r gwasanaeth a ddarperir yn gywir. Cynhelir cyfarfodydd staff a phreswylwyr yn rheolaidd, yn ogystal â chyfarfodydd dyddiol o dîm rheoli'r gwasanaeth. Gwelsom adroddiadau ysgrifenedig yn cadarnhau hyn, a dywedodd y rheolwr wrthym fod yr unigolyn cyfrifol a'r rheolwr rhanbarthol yn gefnogol iawn a'u bod mewn cysylltiad yn rheolaidd. Gwnaethom ddarllen adroddiadau, megis yr adolygiadau o ansawdd y gofal, sy'n trafod meysydd megis ymgynghori â'r bobl, gwella ansawdd, diogelu a llety, ac sy'n cynnwys camau gweithredu cysylltiedig clir.

Mae lefelau da o staff medrus sydd wedi'u hyfforddi'n dda yn gweithio yn y cartref, gan gynnwys staff gofal, staff domestig, cydlynwyr gweithgareddau a staff y gegin. Bydd angen parhau i adolygu lefelau staffio'r staff gofal wrth i fwy o bobl symud i fyw yn y gwasanaeth. Caiff cofnodion y staff eu cadw mewn cabinet ffeiliau dan glo yn un o'r swyddfeydd. Mae'r cofnodion yn dangos bod aelodau newydd o'r staff gofal yn cael cyfnod sefydlu trylwyr sy'n gyson â Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan (AWIF). Mae ffeiliau'r staff yn cynnwys y wybodaeth recriwtio briodol a thystiolaeth bod gwiriadau wedi cael eu cynnal. Gwnaethom siarad â phedwar gweithiwr gofal. Gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y tîm rheoli ac yn cael sesiynau goruchwylio ffurfiol ac anffurfiol yn rheolaidd. Dywedodd un o'r gweithwyr gofal wrthym, *“there is good management support and I feel listened to”* (mae cefnogaeth dda gan y tîm rheoli ac rwy'n teimlo bod y tîm yn gwrando arnaf). Gwelsom gofnod goruchwylio cyffredinol hefyd sy'n dangos bod y rhan fwyaf o'r gweithwyr gofal yn cael sesiynau goruchwylio ffurfiol yn rheolaidd. Caiff y gweithwyr gofal hyfforddiant craidd a hyfforddiant arbenigol sy'n gyson â'r datganiad o ddiben. Mae'r gweithwyr gofal naill ai wedi cwblhau Fframwaith Cymwysterau a Chredydau (QCF) ym maes gofal ar y lefel briodol, neu maent yn gweithio tuag at hynny. Mae'r gwasanaeth a ddarperir yn gyson â'r disgwyliadau o ran y Gymraeg fel y'i diffinnir gan y ‘Cynnig Rhagweithiol’. Mae'r arwyddion ym mhob rhan o'r cartref yn ddwyieithog, ac mae nifer o aelodau o'r staff yn siarad Cymraeg, yn ogystal â chyrsiau Cymraeg rheolaidd. Mae modd cael yr holl ddogfennaeth yn Gymraeg hefyd.

| **Meysydd i'w gwella a chamau a gymerwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Wedi ei gyflawni** |
| --- |

| **Meysydd i'w gwella a chamau a gymerwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Heb ei gyflawni** | |
| --- | --- |
| Dim | |

| **Meysydd lle y mae angen gweithredu â blaenoriaeth** | |
| --- | --- |
| Dim | |

| **Meysydd lle y mae angen gwneud gwelliannau** | |
| --- | --- |
| Dim | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 05/11/2021